Cofnodion Panel Ansawdd 10/02/2010 – 10:30yb Ystafell Elwy, Canolfan Glasdir, Llanrwst

Presennol:

Gwenan Owain (Cadeirydd); Pegi Talfryn (Nant Gwrtheyrn); Meira Evans (Popeth Cymraeg); Helen Pritchard Jones (Coleg Iâl); Jane Watkins (Coleg Llysfasi); Catrin Verrall (Agored Cymru); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo); Elwyn Hughes (Prifysgol Bangor); Phil Bassett (Prifysgol Glyndŵr); Diane Martin (Coleg Glannau Dyfrdwy); Liz Williams (Coleg Glannau Dyfrdwy); Rhianwen Edwards (Coleg Meirion Dwyfor); Ann Rhian Hughes (Coleg Menai); Haydn Hughes, Pam Evans-Hughes, Jina Gwyrfai, Siân Davies, Siwan Hywel, Ellen Roberts (CCiO), Wyn Hobson (Cyfieithydd).

Ymddiheuriadau:

James Nelson (Coleg Llandrillo), Ifor Gruffydd (CCiO)

Cafodd Papur 'A', Papur 'B', Papur 'C', Papur 'Ch' a Phapur 'D' eu dosbarthu cyn y cyfarfod.

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb i Ganolfan Glasdir am y tro cyntaf.

1. Cofnodion cyfarfod 14/10/09 (Papur 'A') - derbyniwyd y cofnodion.

2. Materion yn codi o'r cofnodion

2.6 Meincnodi - APADGOS wedi comisiynu adroddiad gan Fforwm Cymru ond dim datblygiad pellach ar hyn o bryd.
3. Arholiadau CBAC. Bu cynnydd o 17% yn y rhai safodd yr arholiad ym mis Ionawr 2010. Hyn yn cymharu'n dda iawn gan nad oedd dim cynnydd yn genedlaethol a bod 40% o holl ymgeiswyr Cymru o'r Gogledd.

3. Fframweithiau Newydd

APADGOS - HH yn rhan o'r Panel Cenedlaethol, bydd y cyfarfod nesaf ddiwedd Mawrth a bydd yn adrodd yn ôl i'r Panel Ansawdd.
Llais y Dysgwr - APADGOS ac Estyn wedi llunio cwestiynau craidd a chomisiynu cwmni ymchwil GfK NOP i lunio holiadur ac fel rhan o'r cynllun peilot mae hwn wedi cael ei yrru at 10% o ddysgwyr. Rhai o'r darparwyr yn bresennol yn cynorthwyo gyda'r broses.

Dosbarthwyd yr holiaduron gan ofyn am farn y rhai yn bresennol ar y cwestiynau - mewn cyd-destun mwyafrif dysgwyr Cymraeg i Oedolion dywedwyd fod:

- Y cwestiynau yn amherthnasol ac wedi eu hanelu at fyfyrwyr amser llawn 16-19 oed ar brif gampws
- Defnydd o'r ffurf bersonol 'ti' yn anaddas
- Cwestiynau am y tiwtor yn cyfeirio at golegau
- Llawer o ddyblygu cwestiynau sydd ar ffurflenni ymrestru
- Y farn oedd na fyddai modd canfod unrhyw wybodaeth na data defnyddiol am ddysgwyr Cymraeg I Oedolion o'r holiadur yma.
- Eglurodd HH fod y Ganolfan yn cyfarfod gyda QDP er mwyn symud ymlaen i werthuso pob dysgwr yn y Gogledd, hyn yn debygol o ddigwydd ym mis Ebrill/Mai.
- Gofynnwyd i sefydliadau sy'n ymwneud ag arolwg APADGOS i yrru'r adborth yma atynt. Mi fyddai yntau hefyd yn cario'r genadwri ymlaen.

4. Cadw Dysgwyr - Papur 'B' cyflwynodd HH y papur a baratowyd gan Ifor Gruffydd yn dilyn seminar yn Aberystwyth yn adrodd ar astudiaeth a gomisiynwyd yn yr Hydref 2009 i edrych ar sut i wella cyfraddau cwblhau a dilyniant ym maes CiO. Nodwyd yr argymhellion gweithredol a'r arfer da o yrru dysgwr at ddarparwr arall os yw hyn yn gweddu'n well i'w anghenion, mae'n bwysicach cadw dysgwr o fewn y maes yn hytrach na gyda darparwr.

5. **Estyn - Gwynedd a Môn** – trafodwyd yr arolwg gan longyfarch y bartneriaeth yn yr ardal.

6. Croesawodd y Cadeirydd **Catrin Verrall, Rheolwr Ansawdd a Safonau, Agored Cymru** i'r cyfarfod. Eglurodd Catrin ei bod yn ei swydd ers ychydig fisoedd a bod ailwampio sylweddol wedi digwydd oddi fewn i Agored Cymru. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar raglen ddilysu allanol mewn cytundeb rhwng Agored a CBAC. Bydd yn cysylltu efo'r darparwyr i drafod y rhaglen a phenodi dilyswyr.

Cytunwyd i wahodd Catrin i gyfarfodydd y dyfodol a diolchodd y cadeirydd iddi am ei phresenoldeb, 'roedd yr aelodau'n falch iawn fod Agored Cymru yn symud ymlaen i ddilysu'n allanol.

7. **Adroddiad Blynyddol Estyn – Papur 'C'**

Eglurodd SD mai crynodeb oedd hwn o adroddiad llawn sydd ar wefan Estyn a thynnodd sylw arbennig at:

- CA1 canlyniadau arsylwadau'r Ganolfan yn cymharu'n dda efo canlyniadau Estyn yn genedlaethol.
- Cyfleoedd dysgu anffurfiol yn cael eu canmol fel modd o gynorthwyo dysgwyr i gyrraedd rhuglder.
- Bod pwyslais ar ddefnydd effeithiol o CDUau unwaith eto.

HH yn mynychu'r Gweithgor Cenedlaethol 11/2/10 lle bydd Estyn yn bresennol, bydd yn adrodd yn ôl ar unrhyw bwyntiau fydd yn codi ac yn gofyn y cwestiynau canlynol:

- Lle mae Estyn yn gweld gwerth mewn CDUau pan mae cwrs yn dilyn cwricwlwm caeth?
- Angen diffiniad clir o Radd 1 i Diwtor yn y Fframwaith Newydd a'r angen i arwain yn genedlaethol.
- Beth yw disgwyliadau Estyn o'r Ganolfan - efallai targedu ardaloedd difreintiedig a darparu cyrsiau neu darparu cyrsiau Gloywi Cymraeg am ddim i rai di-waith mewn cyfnod o ddirwasgiad?

Teimlwyd ei bod yn amhosib mynd i'r afael a phwynt 177 yn yr adroddiad. Canlyniad y natur ddynol yw prinder dynion ymysg dysgwyr Cymraeg i Oedolion.

8. **Arsylwadau'r Ganolfan - Papur Dd** - cyflwynodd SD yr adroddiad yn dilyn arsylwadau'r Ganolfan yng Ngwynedd a Môn ym mis Tachwedd 2009. Nododd yn arbennig fod y canlyniadau yn dangos cynnydd da yn CA1, a chynnydd i raddau llai yn CA2 gyda lleihad yn y tiwtoriaid yn cael graddau 3. 'Roedd 40% o'r tiwtoriaid hynny a fynychodd hyfforddiant ôl-arsylwi (h.y. sesiynau yn trafod gwendidau a welwyd yn ystod arsylwadau 2008/09) wedi codi o leiaf un radd. Nododd HH fod y Ganolfan yn rhoi mwy o bwyslais bellach ar argymell tiwtoriaid i arsylwi tiwtoriaid profiadol er mwyn gwella ei sgiliau.

Dywedodd DM o Goleg Glannau Dyfrdwy ei bod yn gweld cysondeb rhwng darganfyddiadau'r Ganolfan a rhai'r Coleg ei hun wrth arsylwi.

Mae'r darlun mawr yn gadarnhaol ac yn dangos cynnydd yn yr ansawdd. Mae'n bwysig annog tiwtoriaid sy'n cael graddau 3 neu 4 i fynychu hyfforddiant.

9. **ADCDF** - Mae hyn yn uchel iawn ar agenda APADGOS ac yn bwysig yn fframwaith newydd Estyn. Cafwyd canmoliaeth ar yr agwedd yma yn arolwg Gwynedd a Môn, gan nodi ei fod wedi ei blethu'n naturiol i'r dosbarthiadau. Bydd JG a SD yn mynychu cyflwyniad 11/2/10 a bydd Alyson Jenkins yn rhoi cyflwyniad i'r Ganolfan ar y 19eg Mawrth.

10. **AHA a CDU – Papur Ch a D**

'Roedd y papurau wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod a gofynnwyd i'r aelodau rannu yn grwpiau i'w trafod ac adrodd yn ôl ar eu hargraffiadau. Cafwyd yr ymatebion canlynol:

- Manwl a chynhwysfawr iawn – efallai'n ormodol
- Angen mwy o ddata a thystiolaeth y gellid cyfeirio ato'n hawdd

- Byddai'n well pe bai wedi ei strwythuro fel bod y CDA ochr yn ochr â'r AHA
- Llawer o wybodaeth a syniadau defnyddiol
- Gormod o ail-adrodd
- Gormod o dargedau
- Rhy ddisgrifiadol a dim digon arfarnol

Derbyniwyd y sylwadau i gyd oedd yn debyg iawn i'r rhai gafwyd gan y cyfaill beirniadol Ian Dickson. Swyddogion wedi edrych ar fformat AHA Coleg Glannau Dyfrdwy a bydd yn mabwysiadu'r fformat yma yn y dyfodol. Canllawiau APADGOS eleni oedd bod yr AHA wedi ei selio ar yr hen fframwaith. Bydd HH a SD yn ei throsglwyddo i fformat y fframwaith newydd yn ystod y misoedd nesaf fel ei bod yn barod i'w haddasu ar gyfer AHA 2009/10.

11. Nid oedd unrhyw fater arall.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad cyn cloi'r cyfarfod.

Cyfarfod nesaf 26ain Mai 2010 yng Ngholeg Llandrillo am 10:30yb.

Minutes of the Quality Panel, 10/02/2010 — 10:30am in the Elwy Room, Glasdir Centre, Llanrwst

Present:

Gwenan Owain (Chair); Pegi Talfryn (Nant Gwrtheyrn); Meira Evans (Popeth Cymraeg); Helen Pritchard Jones (Yale College); Jane Watkins (Coleg Llysfasi); Catrin Verrall (Agored Cymru); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo); Elwyn Hughes (Bangor University); Phil Bassett (Glyndŵr University); Diane Martin (Deeside College); Liz Williams (Deeside College); Rhianwen Edwards (Coleg Meirion Dwyfor); Ann Rhian Hughes (Coleg Menai); Haydn Hughes, Pam Evans-Hughes, Jina Gwyrfai, Siân Davies, Siwan Hywel, Ellen Roberts (WfAC), Wyn Hobson (Interpreter).

Apologies:

James Nelson (Coleg Llandrillo); Ifor Gruffydd (CCiO)

Paper 'A', Paper 'B', Paper 'C', Paper 'Ch' and Paper 'D' had been distributed in advance of the meeting.

The Chair opened the meeting and welcomed everyone to the Glasdir Centre for the first time.

1. Minutes of the meeting of 14/10/09 (Paper 'A') — the Minutes were accepted.

2. Matters Arising from the minutes

2.6 Benchmarking — DCELLS had commissioned a report from Fforwm Cymru, but at present there were no further developments to report.
3. WJEC Examinations. There had been an increase of 17% in the number of candidates sitting the examination in January 2010. This compared very well, as there had been no increase nationally and 40% of all the applicants in Wales had been from North Wales.

3. New Frameworks

DCELLS — HH was a member of the National Panel; the next meeting would be held at the end of March, and he would be reporting back to the Quality Panel.
Learner Voice — DCELLS and Estyn had drawn up core questions and had commissioned the research company GfK NOP to draw up a questionnaire; and as part of the pilot scheme, this had been sent to 10% of learners. Some of the providers were at present assisting with the process.

Copies of the questionnaire were distributed, and the views of those present concerning the questions were requested. In the context of the majority of Welsh for Adults learners, respondents stated that:

- The questions were irrelevant and were aimed at full-time students aged 16–19 on a main campus
- The use of the familiar personal pronoun 'ti' was inappropriate
- Questions concerning the tutor referred to colleges
- There was much duplication of questions found on enrolment forms
- The general opinion was that it would not be possible to derive any useful information or data about Welsh for Adults learners from this questionnaire.
- HH explained that the Centre would be meeting QDP in order to move on to appraise every learner in North Wales, and that this was likely to happen in April/May.
- Institutions involved with a DCELLS inspection were asked to send this feedback to DCELLS. He too would convey this message.

4. Retention of Learners — Paper 'B' HH presented the paper prepared by Ifor Gruffydd following a seminar in Aberystwyth, reporting on a study commissioned in autumn 2009 to examine how to improve completion and progression rates in the field of WfA. The operational recommendations, and the good practice of sending a learner

to another provider if that was more appropriate to his/her needs, were noted. It was more important that a learner be retained in the field of WfA than with a particular provider.

5. Estyn — Gwynedd and Anglesey — the inspection was discussed, and the area partnership was congratulated.

6. The Chair welcomed **Catrin Verrall, Quality and Standards Manager with Agored Cymru,** to the meeting. Catrin explained that she had been in post for a few months, and that substantial revamping had occurred within Agored Cymru. At present she was working on an external validation programme under a contract between Agored Cymru and WJEC. She would be contacting the providers to discuss the programme and appoint validators.

It was agreed to invite Catrin to future meetings, and the Chair thanked her for her attendance. Members were very pleased that Agored Cymru was moving forward to external validation.

7. Estyn Annual Report — Paper 'C'

SD explained that this was a summary of a full report that was available on the Estyn website, and she drew particular attention to the following:

- KQ1: the results of the Centre's observations compared well with Estyn results nationally.
- Opportunities for informal learning had been praised as a means of assisting learners to achieve fluency.
- That there had been emphasis once again on effective use of ILPs.

HH would be attending the National Working-party meeting on 11/2/10, at which Estyn would be in attendance. He would report back on any points arising, and would ask the following questions:

- Where does Estyn see value in ILPs when a course follows a strict curriculum?
- A clear definition of Grade 1 for a Tutor is needed in the New Framework, and there is a need to lead nationally.
- What are Estyn's expectations of the Centre — perhaps targeting deprived areas and providing courses, or providing 'Polish your Welsh' courses free of charge for unemployed people during a period of economic depression?

It was felt to be impossible to address point 177 in the report. The scarcity of men among Welsh for Adults learners was the result of human nature.

8. The Centre's Observations — Paper Dd SD presented the report on the Centre's observations in Gwynedd and on Anglesey in November 2009. It noted in particular that the results showed good progress in relation to KQ1, and a lesser degree progress of in relation to KQ2, with a reduction in the number of tutors given grade 3. 40% of those tutors who had attended post-appraisal training (i.e. sessions to discuss weaknesses observed during the 2008/09 observations) had improved by at least one grade. HH noted that by now the Centre placed more emphasis on recommending that tutors observe experienced tutors in order to improve their skills.

DM from Deeside College said she saw consistency between the Centre's observations and those of the College itself in observing.

The big picture was positive, and showed an increase in quality. It was important to encourage tutors awarded grades 3 or 4 to attend training.

9. ESDGC — This was very high on DCELLS' agenda, and was an important element in the new Estyn framework. There was praise for this aspect of the work in the Gwynedd and Anglesey inspection, noting that the activity was woven naturally into classroom activity. JG and SD would be attending a presentation on 11/2/10, and Alyson Jenkins would be making a presentation to the Centre on 19th March.

10. SAR and ILP — Papers Ch and D

The papers had been distributed in advance of the meeting, and members were asked to divide into groups to discuss them and report back on their impressions. The following responses were received:

- Very detailed and comprehensive — possibly too much so
- There was a need for more data and evidence that could be easily referred to
- It would have been better had it been structured in such a way that the QDP was alongside the SAR
- Much useful information and ideas
- Too much repetition
- Too many targets
- Too descriptive and not sufficiently evaluative

The comments were all accepted; they were very similar to those received from the Centre's 'critical friend', Ian Dickson. Officers had looked at Deeside College's SAR format, and would be adopting this format in future. This year's DCELLS guidelines had been that the SAR was to be based on the old framework. HH and SD would be transferring it into the format of the new framework during the coming months, so that it would be ready for adaptation for the 2009/10 SAR.

11. There was no other business.

All participants were thanked before the meeting was closed.

Next meeting: 26th May 2010 at 10:30am in Coleg Llandrillo